Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg y Gwernant
# Pengwern
# Llangollen
# Sir Ddinbych
# LL20 8AR

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg y Gwernant yn rhannu safle gydag Ysgol Gynradd Bryn Collen yn nhref Llangollen, Sir Ddinbych. Daw'r rhan helaeth o'r disgyblion o dref Llangollen ac o bentrefi cyfagos. Disgrifir yr ardal fel un gymharol ffyniannus ac nid yw'r disgyblion yn dod o gefndiroedd o amddifadedd cymdeithasol. Tua 11% o'r disgyblion sydd a'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r ysgol wedi gweld tyfiant blynyddol ers pan agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2005. Ar hyn o bryd, mae 132 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ac maent yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Derbynia'r ysgol ddisgyblion yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Lleiafrif sydd yn siarad Cymraeg yn y cartref.

Mae'r ysgol wedi dynodi 14% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r canran hwn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, ond yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae gan yr ysgol chwech o athrawon amser llawn ac un rhan amser. Apwyntiwyd y pennaeth presennol ym Medi 2005.

Fe arolygwyd yr ysgol am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg y Gwernant yn 2012-2013 yw £4,385. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Sir Ddinbych yw £9,659 a'r lleiafswm yw £3,064. Mae Ysgol Gymraeg y Gwernant yn safle 25 o'r 52 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- cyflawniadau'r disgyblion yn saith ac yn un ar ddeg mlwydd oed yn cymharu'n dda dros gyfnod ag ysgolion tebyg;
- rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni safonau da yn y gwersi ac yn dangos cynnydd clir yn eu gwaith;
- rhan fwyaf o'r disgyblion â medrau da yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- ethos yr ysgol yn ofalgar, cynhwysol a hapus;
- rhan fwyaf o'r disgyblion trwy'r ysgol yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol;
- ystod ddiddorol o brofiadau dysgu, yn cael eu cyfoethogi gan nifer o ymweliadau addysgol; a bod
- yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol ac yn cael effaith bositif ar safonau rhan fwyaf o'r disgyblion yn enwedig ar wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- rheolaeth effeithiol sy'n rhoi cyfrifoldebau clir i staff ar bob lefel;
- ymwybyddiaeth glir gan bawb o bwrpas a chyfeiriad yr ysgol;
- prosesau clir a manwl i olrhain cynnydd disgyblion;
- sustemau hunanarfarnu treiddgar yn eu lle sydd wedi arwain at ddarlun dilys o'r agweddau lle mae angen gwelliant;
- y pennaeth a'r llywodraethwyr wedi cyflwyno nifer o flaenoriaethau sydd yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau disgyblion; a
- llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol, ac yn adnabod yn dda gryfderau'r ysgol a'r agweddau i'w gwella ymhellach.

## Argymhellion

A1 Cael mwy o fechgyn i gyflawni'r deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen a'r lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2.

A2 Gwella sillafu Saesneg disgyblion blwyddyn 3 a 4.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da. Gallant alw i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus a chymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn fedrus mewn sefyllfaoedd newydd. Gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac maent yn dod yn gynyddol hyderus i weithio'n annibynnol. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu a chyflawniad blaenorol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf o'r disgyblion fedrau siarad a gwrando da ac maent yn dangos lefelau uchel o hyder wrth ddefnyddio'r medrau hyn. Defnyddiant y Gymraeg yn hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd ac mae iaith y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd diddorol. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n hyderus i drafodaeth a defnyddiant eirfa amrywiol sy'n berthnasol i'r testun.

Yn fuan iawn yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod i adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml. Defnyddiant wybodaeth o lythrennau a'r perthnasedd rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a sefydlu'r ystyr wrth ddarllen. Maent yn dod yn gynyddol hyderus i fynegi barn am ddigwyddiadau neu syniadau o bwys mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau'n rhugl a chywir. Maent yn darllen yn annibynnol gan ddefnyddio strategaethau priodol i sefydlu ystyr ac yn dod o hyd i wybodaeth yn llwyddiannus a'i defnyddio'n ystyrlon mewn sawl maes. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yr un mor hyderus wrth ddarllen Saesneg.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn cyfleu ystyr amlwg gan ddefnyddio geirfa briodol a diddorol. Mae llawer erbyn hyn yn defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg ac atalnod llawn ar ei diwedd yn gyson. Mae eu syniadau'n datblygu mewn dilyniant o frawddegau. Mae sillafu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn Gymraeg a Saesneg yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir. Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o brif nodweddion gwahanol ffurfiau ar ysgrifennu, gan ddechrau eu haddasu ar gyfer darllenwyr gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Mae sillafu geiriau cyffredin gan lawer o'r disgyblion yn gywir gan amlaf ond maent yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl yn Saesneg ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4. Mae llawysgrifen bron pob disgybl yn ddarllenadwy. Nid yw ychydig iawn o'r disgyblion uwch eu gallu yn cyflawni cystal ag y dylent.

Gan mai'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf i adrodd yn ôl ar y Cyfnod Sylfaen, nid oes data dros amser ar gael.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd rhan fwyaf y disgyblion gyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5 neu well) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol; sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Mae'r canlyniadau yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru. Mae'r canran a gyrhaeddodd ddeilliant 6 hefyd yn well na'r teulu a chyfartaledd ysgolion Cymru ym mhob agwedd.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn yr 50% uchaf ym mhob agwedd.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn uwch na chyfartaleddau ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 hefyd yn uwch ym mhob pwnc. Dros gyfnod o dair blynedd mae canlyniadau ar lefelau 4 a 5 yn cymharu'n dda neu yn well ag ysgolion eraill y teulu a Chymru.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, Cymraeg, Saesneg a mathemateg ac yn agos i'r 50% uchaf mewn gwyddoniaeth. Ar wahân i Saesneg yn 2011 a mathemateg yn 2010, tebyg yw'r patrwm wedi bod dros y tair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion a gyflawnodd lefel 5, mae'r ysgol yn y 25% uchaf mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae merched yn cyflawni ychydig yn well na'r bechgyn ym mhob maes yn y Cyfnod Sylfaen ac yn sylweddol well ym mhob pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn enwedig ar y deilliant a'r lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau eu gwersi ac maent yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i leisio barn yn y broses o ddewis a chynllunio themâu. Maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i weithio'n annibynnol. Mae lefelau cyfranogiad llawer o'r disgyblion mewn gwneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith yn nodwedd gref ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Mae'r cyngor ysgol, grŵp SNAG a chyngor eco yn gweithio'n gydwybodol iawn ac yn gwrando ar farn pob disgybl ynglŷn ag ystod eang o bynciau. Maent yn cymryd rhan amlwg mewn ystod o weithgareddau cymunedol ac yn falch o'u cyfraniadau i'r dref. Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u cymuned leol ac yn cyfrannu'n helaeth at wahanol elusennau. Mae eu barn yn cael ei thrin â pharch ac yn bwysig i fywyd yr ysgol.

Mae'r ymddygiad yn gyson dda ar draws yr ysgol ac mae pob un o'r disgyblion yn gwrtais iawn ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac wedi bod yn gyson ymhlith y 25% uchaf o ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol di-dâl dros y blynyddoedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad da o weithgareddau amrywiol a diddorol ac i chwarae rhan amlwg yn cynllunio gwaith eu hunain. Mae'r cynllunio hefyd yn diwallu anghenion neilltuol grwpiau ac unigolion ac yn cynnig rhaglenni heriol personol iddynt.

Mae medrau meddwl yn cael eu datblygu'n llwyddiannus mewn sawl pwnc ac fe roddir ffocws cryf ar ddatblygiad medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fe sicrheir bod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn cael ei chydlynu'n briodol fel bod dilyniant ym mhrofiad y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gwaith cartref wedi ei gynllunio'n ofalus i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau cymunedol a rhaglen ddiddorol a phwrpasol o ymweliadau tymhorol ar gyfer llawer o'r disgyblion. Mae'r digwyddiadau hyn yn cyfoethogi ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae profiadau dysgu'n cael eu cyfoethogi gan ymweliadau beirdd ac artistiaid preswyl, ynghyd â chyfleoedd cyson i gystadlu mewn eisteddfodau, astudio'r amgylchedd lleol a hanes a llên gwerin yr ardal.

Trwy ystod amrywiol o weithgareddau, caiff disgyblion ar draws yr ysgol gyfleoedd cyson i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o fyw'n gynaliadwy. Caiff y disgyblion gyfleoedd hefyd i gymharu eu profiadau bywyd â rhai plant o wahanol wledydd a thrwy hyn hybu eu parch a dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda neu well ar draws yr ysgol. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o ddulliau dysgu diddorol sydd yn ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n ddychmygus, gyda disgwyliadau uchel a heriol ym mhob sesiwn a arsylwyd.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gyfoes ac mae'r berthynas dda rhyngddynt a'r disgyblion yn meithrin agweddau cadarnhaol at waith. Manteisia'r athrawon yn dda ar y tîm o gymorthyddion dysgu sy'n rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion a'u helpu i gwblhau eu tasgau. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn modelu a chywiro iaith yn effeithiol.

Mae athrawon yn rhannu nodau dysgu yn glir â'r disgyblion sy'n eu helpu i fesur eu cynnydd eu hunain. Mae targedau a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu'n ofalus i sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wneud i lwyddo yn y gwersi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'u targedau ar gyfer gwella a sut i weithio tuag atynt.

Mae ansawdd yr asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu yn uchel. Caiff cynnydd pob disgybl ar draws yr ysgol ei dracio'n eithriadol o ofalus. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol iawn wrth gynllunio gwaith pellach. Mae pob disgybl yn cael cyfleoedd ardderchog i osod targedau eu hunain ac i asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. Derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion ym mhob gwers. Mae sylwadau ar waith y disgyblion wedi eu cysylltu'n glir â'r meini prawf llwyddiant a osodwyd.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plant. Bydd targedau personol a chanlyniadau tracio yn cael eu rhannu gyda'r rhieni yn dymhorol ac mae adroddiadau yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i les a diogelwch disgyblion. Mae polisïau a threfniadau effeithiol yn eu lle a thrwy raglenni Ysgol Iach, addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gorfforol, sicrheir fod bob plentyn yn cael y profiadau angenrheidiol.

Fe anogir disgyblion yn gyson i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sydd yn anghywir. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch am wirionedd a chyfiawnder yn treiddio drwy waith pob dydd yr ysgol. Mae sesiynau cyd-addoli, amser cylch a chyfnodau yn y gwersi yn sicrhau cyfle cyson i ddisgyblion fyfyrio ar y neges sy'n cael ei chyflwyno.

Mae gwybodaeth dda gan y staff am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau lles penodol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer helpu disgyblion i reoli eu teimladau a datblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan-barch. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i sicrhau'r gefnogaeth orau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl i adnabod anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn y modd y mae'n sicrhau cymuned ofalgar, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Nodwedd amlwg yw'r ymdeimlad teuluol yn seiliedig ar egwyddorion sy'n parchu hawliau unigolion o fewn cymuned yr ysgol. Caiff pob disgybl hawl gyfartal i holl feysydd y ddarpariaeth a chânt eu hannog i gyfrannu'n

llawn i fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn delio yn sensitif ac effeithiol ag achosion o ymddygiad heriol.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio'n fedrus i hyrwyddo dysgu da. Mae'r ddarpariaeth o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn creu amgylchedd dysgu symbylol a chyfoethog. Gwneir defnydd llawn o'r holl gyfleusterau, gan gynnwys y neuadd, i weithgareddau megis cydaddoli a chwaraeon.

Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae hi a gweddill y staff yn annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae hyn yn nodwedd amlwg sy'n creu sylfaen gref wrth ymdrin â chodi safonau a darparu cwricwlwm eang ar draws yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau penodol gan y staff i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ac maent yn rhannu arferion da yn bwrpasol a llwyddiannus. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar broses wella'r ysgol ac yn arwain at gamau gweithredu clir i wella arfer. Mae cynnydd yn gweithredu ar benderfyniadau blaenorol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Rhoddir sylw amlwg i fabwysiadu a rhoi ar waith egwyddorion a gweithdrefnau yn deillio o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ac i ddatblygu'n llwyddiannus fedrau dwyieithrwydd a llythrennedd y disgyblion. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn greadigol iawn.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae'r ysgol yn perfformio trwy drin data perfformiad yr ysgol yn effeithiol, gwrando ar aelodau'r staff ac ymweld â dosbarthiadau. Maent yn mynychu hyfforddiant ac yn herio'r ysgol yn gyson fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn datblygu dealltwriaeth aelodau'r staff i gyd o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r staff cyfan, rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion yn rhan allweddol o'r broses. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn drwyadl ac yn cofnodi agweddau i'w gwella yn gywir. Trwy ddadansoddiad trylwyr o

ddata perfformiad, monitro darpariaeth ac adolygiad o bob agwedd ar fywyd yr ysgol, fe roddir ffocws amlwg ar godi safonau disgyblion.

Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac o fewn terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau gwelliannau dros gyfnod.

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau effeithiol i wella gwybodaeth a medrau athrawon yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r staff yn cael eu cynnwys mewn ystod o weithgorau i ddatblygu eu harbenigedd ac i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn hyfforddiant i wella eu medrau. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio parod gyda phum ysgol benodedig Gymraeg y sir i ddatblygu ysgrifennu bechgyn abl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Ceir partneriaeth gref iawn gyda rhieni, sydd yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau. Mae nosweithiau i godi ymwybyddiaeth rhieni o bwysigrwydd rhifedd a llythrennedd a'r dulliau addysgu a ddefnyddir wedi bod yn werthfawr.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Mae'r cynllun Ffrwyth a Llysiau gyda busnes lleol wedi gwella medrau rhedeg busnes a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth gyda chylch meithrin y dref yn sicrhau cyd-ddefnydd effeithiol iawn o staff yr ysgol ac adnoddau dysgu. Fe roddir arweiniad clir gan yr ysgol ar yr hyn sydd yn ddisgwyliedig pan fydd y plant yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae system effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu yn y dalgylch gyda phroffiliau pwrpasol a defnyddiol wedi eu datblygu i gynorthwyo athrawon yn eu hasesiadau. Ceir partneriaeth dda hefyd gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae'r trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar arbenigedd staff mewn addysg gorfforol, cerdd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; caiff hyn ddylanwad amlwg ar safonau. Fe reolir defnydd o'r staff ategol yn effeithiol iawn.

Caiff pob un o'r staff perthnasol yr amser angenrheidiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a defnyddir hyn yn bwrpasol i rannu arfer dda, monitro, cynllunio a pharatoi adnoddau.

Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sy'n arwain at gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Caiff effaith yr adnoddau ar ddysgu a dysgu ei hadolygu'n gyson a chynllunnir yn ofalus ar gyfer anghenion y dyfodol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus iawn gan y pennaeth a'r panel cyllid. Mae symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf i adrodd yn ôl ar y Cyfnod Sylfaen, nid oes data dros amser ar gael.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd rhan fwyaf gyflawni'r lefelau disgwyliedig sef deilliant 5 neu well mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol; sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Mae'r canlyniadau yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru. Mae'r canran a gyrhaeddodd deilliant 6 hefyd yn well na'r teulu a chyfartaledd ysgolion Cymru ym mhob agwedd.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen, yn y 50% uchaf mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ac ychydig yn is na'r canolrif mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. O gymharu ag ysgolion a gyflawnodd deilliant 6 mae'r ysgol yn 25% uchaf mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ac yn y 50% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, lefel 4 neu uwch, mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn uwch na chyfartaleddau ysgolion tebyg a Chymru.

Yn y pynciau unigol, roedd cyrhaeddiad y disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 hefyd yn uwch nag ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru ym mhob pwnc. Dros gyfnod o dair blynedd mae canlyniadau ar lefel 4 a 5 yn cymharu'n dda neu yn well ag ysgolion y teulu a Chymru.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, Cymraeg, Saesneg a mathemateg ond ychydig yn is na'r canolrif mewn gwyddoniaeth. Ar wahân i Saesneg yn 2011 a mathemateg yn 2010, tebyg yw'r patrwm wedi bod dros y tair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion a gyflawnodd lefel 5 mae'r ysgol yn 25% uchaf mewn Cymraeg a Saesneg ac yn 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn ym mhob maes yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn enwedig ar y deilliant a'r lefelau uwch.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr

Derbyniwyd 19 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefel bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob rhiant yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plant yn ddiogel ynddi. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.

Teimlai pawb bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae pob un hefyd yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda a theimlant fod yna amrywiaeth dda o weithgareddau a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn gyson.

Mae pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae pawb yn datgan eu bod yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ychydig iawn sydd yn teimlo nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol.

### Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Llenwyd yr holiaduron gan 60 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r lefel bodlonrwydd yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob disgybl yn dweud bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Maent i gyd yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio a'u bod yn ddiogel yno.

Teimlai bron pob un eu bod yn gwneud yn dda yn eu gwaith a'u bod yn gwybod pwy i droi ato os ydynt yn poeni neu'n gofidio neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un yn datgan bod yna ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith a bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Ychydig iawn sy'n dweud nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn teimlo nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ac nad yw plant yn ymddwyn yn dda bob amser fel y gallant wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Merfyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Jones | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.